

## NFFN Cymru Sustainable Farming Scheme Key Asks

Dear Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs,

With the Sustainable Farming Scheme currently due to be introduced in January 2025, Welsh farming stands on the edge of what could be transformational, world-leading change. A shift from blunt area-based payments to a new system focused on sustainable land management is crucial in delivering what we need from our land.

While there is much to welcome in what has been proposed, more is needed to put Welsh farming on a genuinely sustainable path. For one, we need assurance that farmers delivering the objectives of the scheme will be properly paid. Farmers need certainty to confidently invest in change, which has been sadly eroded amidst significant cuts to the rural affairs and agri-environment budgets. Putting environmental delivery at the heart of decision-making will mean valuing it properly.

Rightfully, the scheme's ambition is to support all farmers on a journey to sustainable land management. But an overriding focus on simple, universal actions risks leaving behind many farmers in landscapes vital for biodiversity recovery, reduced flood risk, climate mitigation and adaptation. Those farms that have often done the most using previous agri-environment scheme funding, such as those found in our upland, marginal and common land, risk taking a major funding hit, with farm incomes and biodiversity both likely to suffer. Those farmers need assurance that optional and collaborative options will come into play and quickly.

Much has been made of the mandatory requirement for minimum tree cover on all farms. But this doesn't have to be contentious or a barrier to farm productivity. With careful thought we can harness the potential of farm woodland integration and the multifunctional benefits that such an approach to land use can provide. But this requires a strategic approach to woodland creation, which must be inbuilt into the scheme.

Meeting the requirements of the Sustainable Farming Scheme will be a change for many farmers, which may be both daunting and challenging. Payments are crucial, yes, but so is the advice, guidance and access to knowledge to help farmers change their practices with confidence. Only then can we expect sustainable farming to become mainstream.

The decisions made now will play a pivotal role in delivering a better future for Wales; its economy, environment and society. Welsh farmers stand ready to deliver thriving, resilient landscapes that deliver the outcomes that people need. To do this, the SFS must:

- Provide a proper funding package for nature-friendly farming to adequately reward farmers for delivering genuinely sustainable land management alongside food and fibre production
- Ensure that no farmer gets left behind by delivering all elements of the scheme by 2026 including optional and collaborative elements to support the most ambitious land management action
- Follow the principle of the right tree in the right place for the right purpose to harness the benefits of integrating trees on farmland while avoiding trade-offs
- Payments that deliver genuine outcomes through schemes that are more flexible, reward results and harness existing farmer knowledge
- The right advice, guidance and support for farm-level change through increased investment and capacity for face-to-face advisory services and farmer to farmer knowledge exchange

## Gofynion Allweddol NFFN Cymru ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,

Gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn disgwyl cael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2025, mae ffermio yng Nghymru ar gyron yr hyn a allai fod yn newid trawsffurfiol sy'n arwain y byd. Mae symud o daliadau di-fin sy'n seiliedig ar arwynebedd tir i system newydd sy'n canolbwyntio ar reoli tir yn gynaliadwy yn hollbwysig er mwyn cyflawni'r hyn sydd ei angen arnom o'n tir.

Er bod llawer i'w groesawu yn yr hyn sydd wedi'i gynnig, mae angen mwy i osod ffermio Cymru ar lwybr gwirioneddol gynaliadwy. Yn y lle cyntaf, mae angen sicrwydd arnom y bydd ffermwyr sy'n cyflawni amcanion y cynllun yn cael eu talu'n briodol. Mae angen sicrwydd ar ffermwyr i'w galluogi i fuddsoddi mewn newid ag hyder, rhywbeth sydd, yn anffodus, wedi'i erydu yng nghanol toriadau sylweddol i'r gyllideb materion gwledig ac amaeth-amgylcheddol. Bydd rhoi darpariaeth amgylcheddol wrth wraidd y broses o greu penderfyniadau yn golygu ei fod yn cael ei werthfawrogi'n iawn.

Yn gwbl briodol, uchelgais y cynllun yw cefnogi pob ffermwr ar daith i reoli tir yn gynaliadwy. Ond mae ffocysu'n bennaf ar gamau gweithredu syml, cyffredinol yn peryglu gadael nifer o ffermwyr ar eu hôl mewn tirweddau sy'n hanfodol ar gyfer adfer bioamrywiaeth, lleihau perygl llifogydd a lliniaru ac addasu i newid hinsawdd. Mae'r ffermydd hynny sydd yn aml wedi gwneud y mwyaf o ddefnyddio'r cyllid cynllun amaeth-amgylcheddol blaenorol, fel y rhai a geir yn ein hucheldir, tir ymylol a thir comin, mewn perygl o gael ergyd ariannol fawr, gydag incwm ffermydd a bioamrywiaeth ill dau yn debygol o ddiodef. Mae angen sicrwydd ar y ffermwyr hynny y bydd opsiynau dewisol a chydweithredol yn dod i rym ar fyrder.

Mae llawer o sylw wedi'i roi i'r gofyniad gorfodol am isafswm gorchudd coed ar bob fferm. Ond nid oes rhaid i hyn fod yn ddadleuol nac yn rhwystr i gynhyrchiant tir fferm. Trwy feddwl yn ofalus gallwn fanteisio yn y potensial sydd i integreiddio coetir ar dir fferm a'r buddion niferus y gall rheoli tir fel hyn eu cyflenwi. Ond mae hyn yn gofyn am dull strategol o greu coetir, y mae'n rhaid ei ymgorffori yn y cynllun.

Bydd bodloni gofynion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn newid i lawer o ffermwyr, a gall fod yn anodd ac yn heriol. Ydy, mae taliadau'n hollbwysig, ond felly hefyd mae'r cyngor, yr arweiniad a'r mynediad at wybodaeth sydd angen ar ffermwyr i'w helpu i addasu eu harferion yn hyderus. Dim ond wedyn y gallwn ddisgwyl i ffermio cynaliadwy ddod yn gyffredin.

Bydd y penderfyniadau a wneir yn awr yn ganolog wrth sicrhau dyfodol gwell i Gymru; ei heconomi, ei hamgylchedd a'i chymdeithas. Mae ffermwyr Cymru yn barod i greu tirweddau sy'n ffynnu, sy'n wydn ac sy'n sicrhau'r hyn sydd eu hangen ar bobl. I wneud hyn, rhaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy:

- Ddarparu pecyn ariannu priodol ar gyfer ffermio er lles natur er mwyn gwobrwyo ffermwyr yn ddigonol am reoli tir gwirioneddol gynaliadwy ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd a ffibr.
- Sicrhau na fydd unrhyw ffermwr yn cael ei adael ar ôl drwy gyflwyno holl elfennau'r cynllun erbyn 2026 gan gynnwys elfennau dewisol a chydweithredol i gefnogi'r camau rheoli tir mwyaf uchelgeisiol.
- Ddilyn yr egwyddor o'r goeden iawn yn y lle iawn at y diben cywir er mwyn cydio yn y manteision o integreiddio coed ar dir fferm gan osgoi cyfaddawdau.
- Cynnig taliadau sy'n sicrhau canlyniadau go iawn trwy gynlluniau sy'n fwy hyblyg, yn gwobrwyo canlyniadau ac sy'n defnyddio gwybodaeth bresennol ffermwyr.
- Cynnig y cyngor, yr arweiniad a'r cymorth cywir ar gyfer newid ar lefel fferm drwy fwy o fuddsoddiad a chreu mwy o gapasiti ar gyfer gwasanaethau cynghori wyneb yn wyneb a chyfnewid gwybodaeth rhwng ffermwyr a ffermwyr